



Ysgol Hafod Lon,
Parc Busnes Eryri,
Penrhyndeudraeth,
LL48 6LD
Pennaeth: Mrs Donna Roberts

01766772140

post@ysgolhafodlon.co.uk

16/06/2020

Annwyl rieni/gwarchodwyr,

Cyhoeddwyd y '**Fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cam nesaf i addysg a gofal plant**' ar 15ed o Fai fel dogfen weithio i gynghori ar ffyrdd o newid sut roedd ysgolion a darparwyr eraill yn gweithredu dros amser er mwyn ymateb i COVID-19.

Roedd hwn yn ailadrodd 5 egwyddor allweddol y Gweinidog Addysg ar gyfer y cam nesaf.

- Diogelwch, a lles meddyliol, emosiynol, a chorfforol dysgwyr a staff.
- Parhau i gyfrannu at yr ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â lledaeniad COVID-19.
- Ennyn hyder rhieni a gofawyr, staff a dysgwyr – ar sail tystiolaeth a gwybodaeth – fel y gallant flaengynllunio.
- Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar adegau allweddol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig.
- Cysondeb â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, rhoi canllawiau ar waith i gefnogi mesurau megis ymbellhau, rheoli presenoldeb a champau diogelu ehangach.

Ar Ddydd Mercher, 3ydd Mehefin, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg gynllun i gynyddu gweithrediad ysgolion o'r

29ain Mehefin.

Pam fod y Gweinidog Addysg wedi gwneud y penderfyniad hwn rwan?

"Rydym yn creu cyfle i ddisgyblion Ddod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu a Pharatoi (Check in, Catch up and Prepare), ar gyfer Mis Medi. Drwy wneud hyn nawr, bydd yn rhoi amser cyswllt hanfodol i blant cyn gwyliau'r haf, a fydd yn arwain at fanteision pwysig yn gymdeithasol ac o ran dysgu a'r bwlch cyrhaeddiad. Bydd hyn yn helpu i baratoi dysgwyr ar gyfer yr amser cyswllt fydd ar gael iddynt ar ôl gwyliau'r haf, ac yn caniatáu i ysgolion brofi eu dulliau gweithredu cyn yr hydref".

Er mwyn parhau i gefnogi gweithwyr allweddol mae'r ddarpariaeth ofal yn cael blaenoriaeth dros yr ysgol yn agor ar gyfer mwy o ddigybllion (check in).

Cafwyd 69 ymateb i'r holiadur.

Cais Gofal i blant gweithwyr allweddol = 11

Cais 'check in' = 37

Ddim yn bwriadu gyrru'r plentyn i'r ysgol = 32 (a phawb arall wnaeth ddim ymateb i'r holiadur).

Yn ystod yr wythnos hon, bydd athro eich plentyn yn eich ffonio i drafod ac ateb cwestiynau. Os yw'r risg yn rhy uchel i iechyd eich plentyn neu i iechyd staff yr ysgol, bydd angen i'ch plentyn barhau i aros adref.

Gwybodaeth bellach a materion i chi ystyried cyn gofyn am le i'ch plentyn yn yr ysgol o'r 29ain Mehefin.

- Os ydych yn dewis cadw eich plentyn/plant adref tan mis Medi cyn ail ddechrau eu gyrru i'r ysgol, ni fyddwch yn cael dirwy am hyn.
- Bydd disgyblion yr ysgol i gyd yn parhau i gael cymorth gan eu hathro mewn ffyrdd gwahanol dysgu o bell, drwy Google Classroom, Seesaw, neu dros y ffôn os na fydd y 'check in' yn yr ysgol yn bosib.

Gwybodaeth Gyffredinol

- Bydd angen i chi ddewis gwasanaeth 'gofal' (os ydych yn weithiwr allweddol) neu wasanaeth 'addysg / check in' ar gyfer ei plentyn/plant.
- Os ydych yn dewis gwasanaeth 'gofal' mae angen i chi fod yn weithiwr allweddol. Byddwn yn disgwyl derbyn eich amserlen waith neu 'off-duty' rota, er mwyn i'ch plentyn fod adref y sâff gyda chi pan na fyddwch chi'n gweithio.

Rhestr Gweithwyr Allweddol

Gofal iechyd a chymdeithasol e.e. doctoriaid, nyrsys, bydwragedd, parafeddygon, gweithwyr cymdeithasol, a staff gofal iechyd a chymdeithasol rheng flaen eraill;

Addysg a gofal plant e.e. meithrinfeydd, staff dysgu/cymorthyddion a gweithwyr cymdeithasol;

Gwasanaethau golau glas e.e. yr heddlu, tân, ambiwlans;

Gweithwyr blaenoriaethol mewn Llywodraeth Leol a Chenedlaethol (mae'r rhain yn cael eu hadnabod gan sefydliadau unigol);

Bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill e.e. cynhyrchu, prosesu, gwerthu a danfon bwyd;

Trafnidiaeth e.e. cynnal dulliau teithio ffyrdd a rheilffyrdd a thrafnidiaeth llwytho.

- Bydd y grŵp/'bubble' disgyblion 'gofal' yn cael eu gwarchod yn y neuadd gan staff cymorth, tra bydd grŵpiau/'bubbles' disgyblion addysg / 'check in' mewn dosbarthiadau gydag athrawon. Ni fyddwn yn cymysgu'r grŵpiau/'bubbles' o ddisgyblion oherwydd risgiau croes-heintio y feirws.

Capasiti maint y dosbarthiadau

- Yn dilyn asesiad risg maint ystafelloedd dosbarth ac ar sail rheol 2 fetr ymbellhau cymdeithasol, dau neu dri disgybl yn unig fydd ym mhob dosbarth bob dydd gyda'r athro a'r staff cymorth ar gyfer 'addysg / check-in'. Mae Cyngor Gwynedd yn dweud fod disgyblion yn cael mynychu'r ysgol o leiaf ddwy waith yn ystod y cyfnod rhwng 29ain Mehefin – 24ain Gorffennaf, a hynny mewn rota fydd yr ysgol yn ei threfnu. Oriau agor fydd 9-2 ar gyfer y sesiynnau 'Galw mewn' (check in).
- Bydd dosbarthiadau, y neuadd a'r coridorau wedi cael eu mesur ar gyfer y rheol 2 fetr ymbellhau cymdeithasol.

Gwybodaeth Feddygol

- Os ydych chi'n riant neu'n warcheidwad sy'n gwarchod eich hun / plentyn neu'n agored i niwed yn feddygol bydd angen i chi gadw eich plentyn adref.
- Ni fydd gweithwyr iechyd (nyrs) yn dychwelyd i'r ysgol ar hyn o bryd. Os oes gan eich plentyn gynllun meddygol unigol ac yn derbyn cefnogaeth staff iechyd bydd angen i chi gadw eich plentyn adref.
- Os yw eich plentyn yn derbyn meddiginiaeth dyddiol yn yr ysgol gan y nyrs, bydd angen i chi gadw eich plentyn adref.

Trefniadau Hylendid a Gofal Personol

- Bydd yr athro wedi gwirio'r trefniadau hyn wrth gynnal yr asesiad risg unigol.
- Bydd gwiriad tymheredd yn cael ei wneud ar bob aelod o staff a bob disgybl yn ddyddiol.
- Bydd pawb yn golchi dwylo neu defnyddio hylif diheintio dwylo wrth gyrraedd yr ysgol.
- Bydd y staff yn gwisgo masg a ffedog blasting er mwyn gwarchod eich plant.
- Ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen gofal personol, neu os ydi asesiad risg y plenty yn nodi bydd staff yn gwisgo PPE llawn.

- Bydd y toiledau'n cael eu glanhau ar ôl bob torriad (break) yn ystod y dydd.
- Bydd staff yn diheintio offer dosbarth ac adnoddau wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen.
- Bydd trefn golchi dwylo'n digwydd yn rheolaidd yn y dosbarth a bydd hand sanitiser ar gael hefyd.
- Bydd y dosbarth yn cael ei lanhau yn drylwyr ar ddiwedd pob dydd.
- Nid fydd yr offer chwarae ar yr iard yn cael ei ddefnyddio ac ni fydd ystafelloedd synhwyrol na'r pwll hydro ar agor.

Trefniadau Cinio

- Ni fydd y neuadd ginio ar agor ac ni fydd bwyd yn cael ei ddarparu ar gyfer unrhyw ddisgybl nac aelodau staff.
- Bydd angen i ddisgyblion ddod a bocs bwyd i'r ysgol.
- Bydd pob pecyn gwag yn gorfod dod adref yn ôl ac ni fydd unrhyw wastraff yn cael ei gymryd gan yr ysgol.
- Bydd staff ar gael i helpu disgyblion efo'u bwyta, ond fe fyddant yn gwisgo PPE llawn.
- Bydd bwyta yn digwydd yn y dosbarth ac ni fydd disgyblion yn crwydro o amgylch yr adeilad.

Trefniadau Cludiant

- Oherwydd yr angen i edrych ar drefniadau ymbellhau cymdeithasol o fewn cludiant, ni fydd yn ymarferol i'r Awdurdod Addysg ddarparu cludiant yn ystod y cyfnod cyn diwedd y tymor. Fe fyddwn yn adolygu'r trefniadau gyda'r Awdurdod yn dilyn cael arweiniad pellach gan y llywodraeth.
- Bydd angen i rieni wneud trefniadau ei hunain gan nad yw'n bosib cadw at y rheolau pellter mewn tacsï
- Os yw eich plentyn yn gymwys i dderbyn cludiant gan yr Awdurdod, byddwch yn gallu gwneud cais i hawlio costau teithio am gludo eich plentyn i'r ysgol eich hun.

Rwyf yn ymddiheuro bod y llythyr yma yn un hir ond rwyf yn mawr obeithio fod y wybodaeth uchod yn ateb eich cwestiynau. Rydym yn ogystal yn atodi ffurflen gyda atebion i gwestiynau cyffredin i'ch cynorthwyo. Cewch gyfle i siarad gyda'r athro cyn i mi gadarnhau unrhyw drefniadau pellach. Yn y cyfamser, cymrwch bwyll a chadwch yn ddiogel.

Gan ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus,